Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Cymdeithasol, Mabwysiadu** |
| **Lleoliad:** | **Ystâd Parc Mamhilad, Pont-y-pŵl** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant - Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru** |
| **Rhif Cyf/Rhif y Swydd:** | **BG09112** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8 (£39,513 to £43,693 pro rata/y flwyddyn) – Parhaol** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |

## Crynodeb Swydd

Darparu gwasanaeth i bawb y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt gan gynnwys teuluoedd biolegol, teuluoedd sy’n mabwysiadu ac oedolion mabwysiedig.

Cyfrannu at ddatblygu a darparu'r gwasanaeth mabwysiadu, yn unol â deddfwriaeth mabwysiadu, rheoliadau, canllawiau, safonau cenedlaethol a pholisïau adrannol.

## Hysbyseb Lawn

Mae CBS Blaenau Gwent yn cynnig cyfle cyffrous i ymuno â’i weithlu gofal cymdeithasol plant. Rydym am recriwtio Gweithiwr Cymdeithasol brwdfrydig gydag ymrwymiad i fabwysiadu fel canlyniad cadarnhaol i blant, i ymuno â Thîm Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru. Mae ein tîm yn darparu gwasanaeth rhagorol i deuluoedd sy’n mabwysiadu ledled y rhanbarth ac rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus trwy godi safonau a gwella canlyniadau i blant a theuluoedd.

Byddwch yn ymwneud â darparu gwasanaeth mabwysiadu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i bawb sy'n ymwneud â mabwysiadu ac yr effeithir arno gan fabwysiadu, felly byddai’n ddymunol pe bai gennych brofiad o waith cymdeithasol gofal plant. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth gan gynnwys recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr, paru a lleoli plant i'w mabwysiadu, ac ystod o ddarpariaeth cymorth gan gynnwys cwnsela unigol, gwaith uniongyrchol gyda phlant a gwaith grŵp a gweithgareddau

ffocysedig. Bydd deiliaid y swydd hefyd yn helpu i ddatblygu cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol ledled y rhanbarth, gan gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth mabwysiadu a recriwtio. Byddwch yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol yn nhimau gofal plant yr ardal ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i gydweithwyr yn ôl yr angen. Mae'r swydd wag presennol yn swydd barhaol yn ein tîm dod o hyd i deuluoedd. Disgwylir i chi gyflawni'r rôl dod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant a gyfeirir at ein gwasanaeth a bod â diddordeb mewn gwaith uniongyrchol, gan gynnwys paratoi plant i'w mabwysiadu a hwyluso diwrnodau deall y plentyn. Darperir hyfforddiant.

Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru gyda'r Cyngor Gofal, gyda chymhwyster Gwaith Cymdeithasol proffesiynol. Byddwch yn dod â phrofiad cadarn o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ac ymrwymiad gwirioneddol i fabwysiadu fel canlyniad cadarnhaol. Mae gwybodaeth drylwyr o bolisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant yn hanfodol hefyd, ynghyd â dealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r gallu i weithio'n dda fel rhan o dîm a blaenoriaethu'ch llwyth gwaith eich hun hefyd yn bwysig.

Gan weithio o fewn y tîm mabwysiadu byddwch yn rhan o weithlu sefydlog a brwdfrydig a byddwch yn derbyn cefnogaeth, goruchwyliaeth a chyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales

**Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofyniad.**

**Gwneir sgrinio cyn-gyflogaeth drylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i ddeiliaid y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnod Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Dyddiad Cau: 24.4.25**
**Dyddiad Cyfweld: 8.5.25**

**GWNEWCH GAIS DRWY DDEFNYDDIO'R DDOLEN ISOD:**

**http://blaenau-gwent.3dmarcomms.com/vacancies**